**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/02851/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

16 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am y cyfle i fynegi sylwadau ar Ddeiseb P-05-1048 cyn i'r Pwyllgor Deisebau ei hystyried yn ffurfiol.

Mae dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â phandemig Covid-19 wedi bod yn ofalus ac yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan SAGE a Sefydliad Iechyd y Byd, a bydd y dull hwn o weithredu yn parhau.

Cyflwynwyd y cyfyngiadau lleol a'r cyfnodau atal byr cenedlaethol a oedd yn para pythefnos i achub bywydau ac atal y GIG rhag cael ei llethu. Mae achosion o’r coronafeirws wedi bod yn codi'n sydyn yng Nghymru wrth i ni fynd i'r gaeaf. Er bod y mesurau cenedlaethol a lleol a roddwyd ar waith ledled Cymru wedi helpu i gadw golwg ar y lledaeniad hwnnw, roedd consensws cynyddol bod angen cymryd camau ychwanegol. Bu'n rhaid ystyried effaith gronnol yr holl gamau y gallem eu cymryd. Effaith gyfunol nifer o weithgareddau sy'n gwneud y gwahaniaeth, nid y risg a achosir gan unrhyw un gweithgaredd.

Mae hyn yn gofyn am ymdrech genedlaethol, sy'n golygu cyfaddawdau ac ymrwymiad gan bob un ohonom. Mae gwasanaethau a oedd yn hanfodol i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn ystod y cyfnod atal byr wedi aros ar agor. Nid ystyriwyd bod cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn hanfodol ar hyn o bryd, gan ei bod yn dal yn bosibl ymarfer corff mewn mannau cyhoeddus yn yr awyr agored yn ystod y cyfnod atal byr.

Er ein bod yn gwerthfawrogi'r effaith y mae'r cyfyngiadau tymor byr hyn yn ei chael ar y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, nod y dull gofalus yr ydym wedi'i gymryd wrth gyflwyno'r mesurau hyn yw diogelu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o'r feirws, gan gynnwys pobl oedrannus. Mae gennym dystiolaeth wyddonol gadarn hefyd fod y risgiau'n is i blant, sydd wedi rhoi rhywfaint o hyblygrwydd inni o ran cadw rhai gweithgareddau plant wedi'u trefnu i redeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar ôl diwedd y cyfnod atal byr cenedlaethol, cyflwynwyd set newydd o reolau cenedlaethol, sy'n ymdrin â sut y gall pobl gyfarfod a sut mae'r sector cyhoeddus a busnesau'n gweithredu. Mae rhagor o fanylion am y rheolau newydd yn dilyn y cyfnod atal byr wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar ar wefan Llywodraeth Cymru a gellir eu gweld drwy'r ddolen isod.

https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism